**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYLLID A DIBENION CYFFREDINOL** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 2il Mawrth 2016 yn y Swyddfeydd Dinesig, Canolfan Gymunedol Ffordd Wellington, y Rhyl, yn dechrau am 6.00pm.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd P. Prendergast (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr B. Blakeley, Mrs. J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Ms J. Hughes, A. R. James, Mrs P. M. Jones, B. Mellor, B. F. Moylan, Mrs W. M. Mullen-James, S. H. Ratcliffe, y Parch. S. Walker a Miss C. L. Williams.

Miss H. J. Windus – Dirprwy Glerc y Dref

## 86. YMDDIHEURIADAU

Cyflwynwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr I. Armstrong (yn sâl), Mrs E. M. Chard (yn sâl), Ms J. Hughes (yn sâl), A. J. Rutherford (ymrwymiad gwaith), Miss S. Roberts (yn sâl), Miss R. Siddall (ymrwymiad arall), D. Simmons (ymrwymiad arall), W. N. Tasker (yn sâl) a Chlerc y Dref, Mr G. J. Nickels (ar wyliau).

Adroddodd Dirprwy Glerc y Dref bod y Cynghorydd I. W. Armstrong nawr wedi bod yn absennol o gyfarfodydd am chwe mis oherwydd salwch a dywedodd bod gohebiaeth wedi ei derbyn gan y Cynghorydd Armstrong yn gofyn i'r Aelodau ganiatáu cyfnod o absenoldeb estynedig iddo er mwyn iddo fedru gwella'n llwyr a dychwelyd i'w ddyletswyddau.

***PENDERFYNWYD*** *rhoi caniatâd i'r Cynghorydd Armstrong i fod yn absennol tan ddiwedd mis Mai 2016.*

## 87. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU – IONAWR 2016

Cyfeiriodd y Cadeirydd at adroddiad Clerc y Dref (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) a'r atodlen o daliadau a wnaed ym mis Ionawr.

| Rhif Taleb | Credydwr | Swm Cyfanswm (£) | Disgrifiad o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau |
|---|---|---|---|
| **146** | Siop Cyngor ar Fudd-daliadau | 1,442.00 | Cynghorydd Hawliau Lles dan Hyfforddiant (taliad 10 o 12) |
| **147** | HSBC | 15.68 | Taliadau banc 17/11/15 i 16/12/15 |
| **148** | BT | 727.02 | Rhentu Llinell, Galwadau a Thaliadau Unwaith ac am Byth |
| **149** | BT | 44.01 | Rhentu Llinell a Galwadau |
| **006** | Cymdeithas Gymunedol y Rhyl | 4,500.00 | Rhent Chwarter 4 |
| **151** | Shire Leasing | 337.33 | Prydlesu Set Law Avaya |
| **152** | Neopost | 200.00 | Ychwanegu arian i'r peiriant ffrancio |
| **040** | Sage & Co | 30.00 | Ffi Cyflogres Fisol - Rhagfyr 2015 |
| **153** | Cymdeithas Cynghorau Tref Gogledd a Chanolbarth Cymru | 60.00 | Cinio i 4 i fynychu cyfarfod ar 22 Ionawr 2016 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **139** | HMRC | 2,494.49 | Trethi ac YG Rhagfyr 2015 |
| **140** | Cynllun Pensiwn Cyngor Sir y Fflint | 1,657.26 | Cyfraniadau Pensiwn Rhagfyr 2015 |
| **140** | Cynllun Pensiwn Cyngor Sir y Fflint | 1,991.67 | Diffyg Cyllid Mis 9 2015 |
| **154** | Staff Cyngor Tref y Rhyl | 6,600.33 | Cyflogau Ionawr 2016 |
| **157** | Cyngor Sir Ddinbych | 279.73 | Costau Gwerthuso Swydd |
| **012** | Cyngor Sir Ddinbych | 506.00 | Treth Gyngor – Mis 10 o 10 |
| **159** | Cyngor Sir Ddinbych | 192.00 | Goleuadau Nadolig – ail-osod amserydd |
| **150** | Y Cyngh J Chamberlain Jones | 12.60 | Treuliau Aelod – teithio i Gyfarfod Cymdeithas Cynghorau Tref Gogledd Cymru |
| | | | |
| | **Cyfanswm Taliadau** | **21,090.12** | |
| | | | |
| | HSBC | 35.44 | Llog ar Fuddsoddiadau Marchnad 7 Diwrnod |
| | Santander | 1.65 | Llog ar Gyfrif Adnau |
| | | | |
| | **Cyfanswm Derbyniadau** | **37.09** | |
| | | | |

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r adroddiad.*

## 88. STRATEGAETH FUDDSODDI FLYNYDDOL 2016/17 - DIWEDDARIAD

Cyfeiriodd Dirprwy Glerc y Dref at adroddiad ar y cyd Clerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) i'r Aelodau ei ystyried.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r argymhellion canlynol:*

*(a) cau Cyfrif Busnes presennol Santander a throsglwyddo'r balans i Gyfrif Marchnad Arian HSBC*

*(b) cau Cyfrif Cynllun Adnau'r Sector Cyhoeddus a throsglwyddo'r balans i Gyfrif Marchnad Arian HSBC*

*(c) agor cyfrif hysbysiad 31 diwrnod newydd gyda Santander*

*(d) cyflwyno adroddiad pellach i ofyn am gymeradwyo adneuon i gyfarfod pellach o'r Pwyllgor hwn fel y bo'n briodol.*

## 89. AROLWG ASESIAD RISG 2015/2016 A CHYNLLUN GWAITH 2016/2017

Cyflwynodd Cadeirydd yr Is-bwyllgor Asesu Risg, y Cynghorydd P. Prendergast, adroddiad yn amlinellu'r gwaith a ymgymerwyd gan yr Is-bwyllgor a'r Cynllun Gwaith arfaethedig ar gyfer 2016 / 17 (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen).

***PENDERFYNWYD*** *derbyn a chymeradwyo'r adroddiad heb ei newid.*

## 90. PARTNERIAETH TELEDU CYLCH CYFYNG SIR DDINBYCH

Adroddodd Dirprwy Glerc y Dref iddi dderbyn ebost gan Reolwr Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Sir Ddinbych (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) yn gofyn am ystyried cynrychiolydd a dirprwy'r Cyngor Tref ar gyfer 2016/17.

***PENDERFYNWYD*** *cadarnhau'r Cynghorydd S. H. Ratcliffe fel cynrychiolydd penodedig y Cyngor Tref a'r Parchedig Gynghorydd S. Walker fel dirprwy.*

## 91. PENODI CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL – GRŴP BUSNES Y RHYL

Adroddodd Dirprwy Glerc y Dref bod gohebiaeth wedi ei derbyn gan Gadeirydd y Grŵp Busnes (a ddosbarthwyd gyda'r rhaglen) a dywedodd ei bod wedi ateb y llythyr yn esbonio'r materion a godwyd. Gofynnodd Dirprwy Glerc y Dref i'r Aelodau ystyried cynrychiolydd y Cyngor Tref i fynychu cyfarfodydd y Grŵp Busnes yn y dyfodol, fel yr awgrymwyd yn y llythyr.

Croesawodd yr Aelodau wahoddiad y Grŵp Busnes a phenderfynu y dylai'r cynrychiolydd penodedig fod yn Gynghorydd Tref yn unig ac un gyda pheth profiad o fusnes.

***PENDERFYNWYD****:*

*(i) Oherwydd y nifer uchel o ymddiheuriadau a gyflwynwyd i'r cyfarfod, gohirio'r gwahoddiad tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor gan roi cyfle i'r rhai a oedd yn absennol fynegi diddordeb.*

*(ii) Bod Dirprwy Glerc y Dref yn cysylltu â'r Grŵp Busnes i ddiolch iddynt am y gwahoddiad ac esbonio'r oedi wrth benodi cynrychiolydd.*

***PENDERFYNWYD YMHELLACH*** *atal y Rheolau Sefydlog i alluogi i Ddirprwy Glerc y Dref ymateb fel mater o frys.*

## 92. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

***PENDERFYNWYD*** *gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r Cyfarfod er mwyn ystyried yr eitemau busnes canlynol yn unol ag Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd), 1960, am resymau cyfrinachedd.*

## 93. EITEM WYBODAETH GAN AELOD: CYNLLUN TREF AC ARDAL Y RHYL

Cyfeiriodd Dirprwy Glerc y Dref at adroddiad cyfrinachol Clerc y Dref (a ddosbarthwyd yn y cyfarfod) yn unol â'r penderfyniad a gymerwyd yng nghyfarfod mis Chwefror y Cyngor a Rheolau Sefydlog Contract Ariannol y Cyngor.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r camau a gymerwyd gan Glerc y Cyngor mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol.*

## 94. EITEM SEFYDLOG – GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU

Mewn perthynas â chofnod rhif 79 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, dywedodd Dirprwy Glerc y Dref nad oedd unrhyw geisiadau wedi eu derbyn gan Heddlu Gogledd Cymru.

**95. SWYDDFA – ADRODDIAD CYNNYDD**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw beth newydd i'w adrodd.

**96. TERFYNU'R CYFARFOD**

Y Cadeirydd i ddirwyn y cyfarfod i ben.

Cadeirydd:…………………..…….

Dyddiad:………………………..….